Y Pwyllgor Cyllid
Finance Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau,
Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

14 Chwefror 2014

Annwyl Chris

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Ionawr ynghylch gwaith craffu ar y Gymraeg.

Fel y gwyddoch, bu'r Pwyllgor yn trafod hyn ar 5 Chwefror. Gwnaethom gytuno y byddem yn gofyn i'r Gweinidog Cyllid fel rhan o waith craffu ar gyllidebau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, nodi yn ei phapurau ategol faint sy'n cael ei wario ar y Gymraeg ym mhob portffolio. Bydd hyn yn ein galluogi i nodi meysydd polisi lle y gallem argymell y dylid dyrannu adnoddau ychwanegol ar gyfer y Gymraeg. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i wneud cymaint a phosibl o'r gwaith craffu ar y gyllideb yn gyhoeddus.

Rwy'n ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid yn rhoi gwybod iddi am gais y Pwyllgor ar gyfer papurau'r dyfodol.

Yn gywir

**Jocelyn Davies AC**
Cadeirydd

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA
Ffôn / Tel: 029 2089 8120
E-bost / Email: PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh